| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Swyddog Cynllunio a Datblygu – Mentrau Gofal Cymdeithasol Bychain |
| Cyfarwyddiaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Yn atebol i’r | Rheolwr Comisiynu |
| Lleoliad | Tŷ Dewi Sant, Ewlo, ac yn gweithio ledled Sir y Fflint |

**Pwrpas y Swydd**

Caiff Gwasanaethau Cymdeithasol eu darparu o fewn cyd-destun gofynion cymdeithasol, demograffig ac amgylcheddol sy'n newid yn gyflym, ac mae’r adran angen gallu ymateb i'r gofynion hynny ynghyd â pharhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr ei wasanaeth a’u gofalwyr o fewn cyllideb y cytunwyd arni.

Mae’r pwysau ar y sector gofal cymdeithasol yn dra hysbys. Mae Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru (2017) yn rhagamcan ein bod yn debygol o weld cynnydd heb ei debyg yn nifer y bobl hŷn (dros 65 oed) yn Sir y Fflint, o 30,000 yn 2014 i 46,000 erbyn 2039. Mae’r effaith y gallai hyn ei gael ar y sector gofal cymdeithasol presennol yn sylweddol.

Bydd deiliad y swydd yn arwain ar ddatblygu, gweithredu, cefnogi ac adolygu mentrau gofal cymdeithasol bychain presennol a’r rhai sy’n datblygu. Gelwir y rhain hefyd yn wasanaethau ‘mentrau gofal bychain’ a byddant yn darparu gofal uniongyrchol a phersonol i drigolion Sir y Fflint. Bydd y mentrau hyn yn gweithio mewn cymunedau lleol i gynnig hyblygrwydd a gwasanaethau gofal personol, cyfleoedd am ddatblygiad economaidd, a bydd ganddynt hefyd ran mewn datblygu gwytnwch o fewn cymunedau.

Bydd deiliad y swydd yn allweddol o ran datblygu rhaglen o gymorth, datblygu adnoddau, codi ymwybyddiaeth o’r dull newydd hwn a chefnogi ffrydiau gwaith strategol i sicrhau ein bod yn datblygu dewis cadarn a chynaliadwy ar gyfer y bobl hynny sydd angen gwasanaethau gofal cymdeithasol yn Sir y Fflint.

**Prif Gyfrifoldebau**

Bydd deiliad y swydd yn:

1. sefydlu a datblygu cynlluniau, polisïau a gweithdrefnau clir a chryno, o fewn fframwaith rheoli prosiect;
2. ymgysylltu â mentrau gofal cymdeithasol bychain presennol a rhai sy’n datblygu, a’u cefnogi drwy’r cyfnod sefydlu a chynllunio busnes, gan eu galluogi i aeddfedu a chynyddu o ran hyfywedd ac effaith;
3. cefnogi mentrau gofal cymdeithasol bychain i gychwyn ar Fframwaith Ansawdd bwrpasol gyda’r Cyngor a sicrhau bod sefydliadau’n gweithio’n unol â safonau a deddfwriaeth gofal cymdeithasol presennol;
4. cyfeirio’r mentrau hyn at yr amrywiaeth o gymorth a hyfforddiant sydd ar gael a datblygu adnoddau pwrpasol yn ôl yr angen;

5. datblygu a gweithredu systemau adrodd atebol er mwyn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau, gweithgarwch gwasanaethau a chyflawniad;
6. datblygu cronfa ddata a rhwydwaith o fentrau gofal cymdeithasol bychain yn Sir y Fflint er mwyn eu galluogi i gyfnewid gwybodaeth, arferion da a chymorth rhwng cymheiriaid;
7. datblygu a rheoli ceisiadau am gyllid allanol a rheoli cyllideb y prosiect;
8. datblygu trefniadau cydweithio cadarn gyda chydweithwyr mewnol ac allanol a dinasyddion, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a chydlynu dulliau er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael;
9. cynrychioli'r Cyngor o fewn Sir y Fflint ac ar lefel leol a rhanbarthol yn ôl y galw;
10. cynnal y theori a'r ymarfer proffesiynol diweddaraf a lledaenu arferion gorau sy'n datblygu ymysg partneriaid a chydweithwyr ledled y Cyngor ac yn ehangach;
11. cymryd cyfrifoldeb am weithredu'n effeithiol gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth;
12. hwyluso'r gwaith o gasglu a chyflwyno argymhellion manwl i fudd-ddeiliaid perthnasol ar gynnydd, risgiau ac argymhellion am waith yn y dyfodol.

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
|---|
| Dim |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Felly mae'n bwysig eich bod yn dangos ar eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol. | | |
| **Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut y bydd yn cael ei asesu?** |
| Addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster proffesiynol cydnabyddedig mewn disgyblaeth briodol | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Profiad o weithio yn y sector gofal cymdeithasol neu faes tebyg | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad proffesiynol o ddarparu cymorth datblygu i fusnesau neu gwmnïau cydweithredol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth ymarferol gadarn o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol a'r gallu i gadw i fyny â mentrau a chanllawiau Llywodraeth Cymru | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o sicrhau a rheoli cyllid allanol | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o reoli prosiectau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o ddatblygu, cefnogi a gweithredu cynlluniau, polisïau a gweithdrefnau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Profiad o weithio mewn amgylchedd comisiynu | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu ardderchog, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda staff o fewn sefydliad, asiantaethau partner a'r cyhoedd, gan gynnwys pobl gydag anableddau dysgu | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau a syniadau yn gryno, gwneud cyflwyniadau i wahanol gynulleidfaoedd ar ystod o bynciau i amrywiaeth o fudd-ddeiliaid megis awdurdodau lleol, iechyd, y sector gwirfoddol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu arwain, annog, a chymryd rhan mewn amrywiaeth o grwpiau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu trafod telerau mewn modd adeiladol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau rhwydweithio da er mwyn gallu gweithio'n hyderus ar draws y Cyngor Sir a hefyd gyda sefydliadau statudol, annibynnol a'r sector gwirfoddol, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dangos sgiliau hyfforddi a mentora | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu dadansoddi gwybodaeth gyfreithiol, polisi ac ariannol gymhleth yn gyflym ac yn gryno | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun i fodloni terfynau amser adrannol | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau ymchwilio a dadansoddi er mwyn llywio penderfyniadau strategol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol Bod â dull dadansoddol o ddatrys problemau, gwneud gwelliannau ac argymhellion fel sy'n briodol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dangos dull hyblyg o weithio gyda'r gallu i gymryd rhan mewn amrywiaeth o dasgau | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau TG cryf gan gynnwys rhaglenni Office | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu gyrru a bod â defnydd o gar ar gyfer y gwaith | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu gweithio'n annibynnol yn ogystal ag mewn tîm | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal ac empathi gyda'r iaith Gymraeg | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |